YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD
PRIFATHRO | HEADTEACHER: MR MEURIG JONES BA (Anrh), CPCP
LLANGYNWYD, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW
POST.YGGLLANGYNWYD@BRIDGEND.GOV.UK
WWW.YGGLLANGYNWYD.CYMRU
@YGGLLANGYNWYD
01656 815700
01656 815701

26 Mawrth 2021

Annwyl ddysgwyr, rhieni a gwarchodwyr,

Dyma ni wedi dod i ddiwedd y tymor ysgol a hoffwn i gymryd y cyfle i ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu gwaith yn ystod y tymor ysgol gwahanol iawn hwn. Mae wedi bod yn braf croesawu dysgwyr yn raddol yn ôl i'r ysgol dros y pythefnos ddiwethaf a'u gweld yn ail ymgysylltu gyda'u dysgu wyneb yn wyneb.

Y bwriad yw bydd yr ysgol yn ail agor yn llawn i bob dysgwr ddychwelyd ar **ddydd Llun 12.04.21**, os bydd rheoliadau'r Llywodraeth yn caniatáu hyn. Bydd cyhoeddiad swyddogol gan y Llywodraeth ynglŷn â'r canllawiau hyn yn ystod y gwyliau ac os bydd yn ddiogel, edrychwn ymlaen i weld yr ysgol gyfan yn llawn unwaith eto. Yn sgil hyn, bydd yr hwb gofal plant yn cau heddiw a hoffwn ddiolch i'r staff sydd wedi bod yn cydlynu'r gwaith allweddol hwn, wrth i ni gefnogi dysgwyr a'u rhieni sydd yn weithwyr allweddol.

Wrth ail agor yn llawn ar 12.04.21 hoffwn i dynnu sylw at y pwyntiau isod:

- Bydd mygydau dal yn orfodol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru
- Dysgwyr i eistedd yn eu seddau priodol ar y bysiau ysgol, yn unol â'r drefn fesul blwyddyn
- Sicrhau bod arian ar gyfrifon eich plant cyn iddynt ddychwelyd ar 12.04.21 er mwyn prynu bwyd o'r ffreutur
- Rydym yn ymfalchïo'n fawr yn ein safonau uchel ac felly gofynnaf i'ch ddefnyddio'r pythefnos o wyliau i gael y wisg ysgol gywir i'ch plentyn a bod y lliw gwallt yn naturiol ac yn addas, yn unol â chanllawiau'r ysgol. Yn yr un modd, hoffwn eich atgoffa nid y gemwaith yn rhan o wisg ysgol.
- Caniateir dysgwyr i wisgo'u cit Iechyd a Lles i'r ysgol ar y diwrnodau hynny mae ganddynt wers addysg gorfforol / ffitrwydd
- Dysgwyr i wirio'r Googlesite ar **ddydd Sul 11.04.21** er mwyn gweld eu hamserlen dydd Llun 12.04.21 ac i wybod pa adnoddau/llyfrau bydd angen arnynt.

Yn ystod y pythefnos diwethaf, mae'r nifer o ymholiadau gan rieni atom wedi cynyddu'n sylweddol. O ganlyniad mae'n amhosib i ni ymateb yn syth gan fod y dysgu ac addysgu yn cymryd blaenoriaeth, yn enwedig wrth i amserlenni addysgu wyneb yn wyneb staff gynyddu. Gofynnaf i chi wirio'r FAQ ar ein gwefan os oes gennych ymholiad ynglŷn â chanlyniadau'r haf ac i fod yn amyneddgar os oes angen ymateb uniongyrchol gan staff.

Wrth i Gymru gychwyn llacio'r rheoliadau cenedlaethol, erfynnaf arnoch i gadw o fewn y rheolau er mwyn i ni gadw ein teuluoedd a chymuned yr ysgol yn ddiogel. Trwy weithio fel TîmLlan gallwn barhau i gadw Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd ar agor ac yn ddiogel.

I gloi, 'rwyf yn hynod falch o waith caled y staff wrth iddynt gynnal y lefel uchaf o addysg a chyswllt bugeiliol a lles yn ystod cyfnod mor digynsail. O ganlyniad rydych chi y dysgwyr wedi llwyddo i ffynnu ac wrth barhau â'r agwedd gadarnhaol hon, gewch y cyfle gorau i lwyddo yn eich astudiaethau.

Pasg hapus i chi gyd.

Cofion
Meurig Jones
Prifathro

YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD
PRIFATHRO | HEADTEACHER: MR MEURIG JONES BA (Anrh), CPCP
LLANGYNWYD, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW
POST.YGGLLANGYNWYD@BRIDGEND.GOV.UK
WWW.YGGLLANGYNWYD.CYMRU
@YGGLLANGYNWYD
01656 815700
01656 815701

26 March 2021

Dear parents and guardians,

We have come to the end of the school term and I would like to take this opportunity to thank everyone very much for their work during this very different school term. It has been great to welcome learners gradually back to school over the past two weeks and to see them re-engage with their face-to-face learning.

The intention is that the school will fully re-open for all learners to return on **Monday 12.04.21,** if Government regulations permit. There will be an official Government announcement of this guidance during the holidays and if it is safe, we look forward to the return of the whole school once again. As a result, the childcare hub will close today and I would like to thank all the staff who have been co-ordinating this key work in order to support learners and their parents who are key workers.

When re-opening in full on 12.04.21 I would like to highlight the following points:

- Masks will still be compulsory in accordance with Welsh Government guidelines
- Learners are required to sit in their designated seats on the school buses, in accordance with their year group
- Ensure there is money on your child's account before returning on 12.04.21 to buy food from the canteen
- We take great pride in our high standards and so I ask that you use the two weeks holiday to ensure your child has the right school uniform and that the hair colour is natural and suitable, in accordance with the school rules. I would also like to remind you that jewellery is not part of the school uniform.
- Learners are allowed to wear their Health and Wellbeing kit to school on the days they have a PE / fitness lesson
- Learners to check the Googlesite on **Sunday 11.04.21** to see their timetable for Monday 12.04.21 in order to know what resources / books they will need.

During the past two weeks, the number of queries from parents has increased significantly. As a result, it is impossible for us to respond immediately as teaching and learning must take priority, especially as staff's face-to-face teaching timetables increase. I ask you to check the FAQ on our website if you have a query regarding the summer results and to be patient if a direct response from staff is required.

As Wales begins to relax the national regulations, I urge you to keep within the rules so that we keep our families and the school community safe. By working as Team Llan we can continue to keep Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd open and safe.

In conclusion, I am extremely proud of the hard work of the staff in maintaining the highest level of education as well as all the pastoral and welfare contact during such an unprecedented period. As a result, our learners have continued to flourish and I am confident that in continuing with this positive attitude, they will have the best opportunity to achieve further success in their studies.

Happy Easter to you all.

Regards
Meurig Jones
Headteacher